musicfest aberystwyth
2003

Classic MusicFest III

MONDAY 21 JULY 8pm

Guy Johnston cello

Tom Poster piano

David Campbell clarinet

DEBUSSY
Sonata

BRITTEN
Sonata

FAURÉ
Romance
et
Papillon

~

BRAHMS
Trio in A minor Op.114
Allegro
Adagio
Andantino grazioso
Allegro

CHOPIN
Polonnaise Brilliante

Guy Johnston is currently studying with Steven Doane at the Eastman College of Music, USA. Throughout his young musical career Guy has won numerous prestigious prizes: he was BBC Young Musician 2000 and was the winner of the BRIT Award for Young British Classical Performer 2002. In 2001 he was the youngest soloist ever to appear at the opening night of the Proms. Guy is also a committed recitalist and chamber musician; last November he made his South Bank debut with Tom Poster.

Tom Poster graduated from King's College, Cambridge in 2002 with a double First. He is now pursuing postgraduate studies with Joan Havill at the Guildhall School of Music and Drama. In 2000 he won the keyboard sections of both the Royal Over-Seas League Annual Music Competition and the BBC Young Musicians Competition and has since given numerous recitals, concerto and chamber performances across the UK and abroad. Several of these have been broadcast on BBC 2, BBC Radio 3 and Classic FM.

David Campbell is acknowledged as one of Britain's finest clarinettists and has performed as soloist with many major orchestras. He loves chamber music and appears with many leading ensembles. He has a very wide repertoire, contemporary and classical, and a diverse discography: most recently he recorded the clarinet quintet by Bliss for Naxos. David is also passionate about music education and regularly gives masterclasses around the world.

THIS CONCERT IS DEDICATED TO THE MEMORY OF KENNETH EMLYN WILLIAMS (24.4.26-11.3.03)

Ken Williams, whose sudden and untimely death occurred last March, was proud of his Celtic origins on both sides of his family. He was born in Northampton, and spent his formative years in the Guildford area. In 1943, following a University short course, he joined the RAF and went on to Cranwell for Officer training at the start of a successful career as pilot, quickly achieving the rank of Wing Commander. In the early '70's he left the RAF and with his wife Pat, began a new chapter, moving to Ponterwyd where he lived for the rest of his life. He became Theatre Manager at the newly opened Aberystwyth Arts Centre in 1972 and in 1975 became the Arts Centre Manager, a post which he greatly enjoyed for several years until his wife became seriously ill and he retired to look after her. Pat's death in 1986 was a severe blow to Ken and his children. At this point he turned to a long-held commitment to Labour politics, becoming active in the Ceredigion and Pembroke Northwest Constituency of which he was Chairman 1990-1998. He was Constituency Treasurer at the time of his death. He was a member of the University of Wales Aberystwyth Court and Council for many years and was a Trustee of the Aberystwyth Community Centre Association during its existence.

Passionately fond of music, Ken had recently joined the Board of Directors of MusicFest-Aberystwyth. He was Treasurer of the Aberystwyth Music Club for many years and was a well-known and respected figure on the musical scene in Aberystwyth. It was through their mutual love of music that, in 1989, he met and married his second wife, Margaret, who shared his deep appreciation of life in mid-Wales and their many and varied leisure activities.

musicfest aberystwyth 2003

Classic MusicFest III

LLUN 21 GORFFENNAF 8pm

Guy Johnston sielo

Tom Poster piano

David Campbell clarinét

DEBUSSY
Sonata

BRITTEN
Sonata

FAURÉ
Romance
et
Papillon

~

BRAHMS
Triawd yn A leiaf Op.114
Allegro
Adagio
Andantino grazioso
Allegro

CHOPIN
Polonnaise Brilliante

Mae **Guy Johnston** ar hyn o bryd yn astudio gyda Steven Doane yng Ngholeg Cerdd Eastman, UDA. Yn ystod ei yrfa fel cerddor ifanc, enillodd Guy nifer o wobrau clodfawr: Cerddor Ifanc y BBC yn 2000 a Gwobr BRIT – Perfformiwr Clasurol Ifanc Prydain 2002. Yn 2001, ef oedd yr unawdydd ieuengaf erioed i ymddangos yn noson agoriadol y Proms. Mae Guy hefyd yn berfformiwr ymroddedig sy'n rhoi datganiadau ac yn gerddor siambr; fis Tachwedd diwethaf perfformiodd am y tro cyntaf yn y South Bank gyda'i gyfeilydd, Tom Poster.

Graddiodd **Tom Poster** yn ddiweddar o Goleg y Brenin Caergrawnt gyda dosbarth Cyntaf dwbl. Ar hyn o bryd mae'n dilyn cwrs ôl radd dan gyfarwyddyd Joan Havill yng Ngholeg Cerdd a Drama Guildhall. Yn 2000, ef oedd enillydd yr adran allweddellau yng Nghystadleuaeth Gerdd Flynyddol y *Royal Over-Seas League* yn ogystal â Chystadleuaeth Cerddor Ifanc y BBC. Ers hynny rhoddodd nifer helaeth o ddatganiadau a pherfformiadau consierto a siambr ar draws y DU ac mewn gwledydd tramor. Darlledwyd nifer o'r rhain ar BBC 2, BBC Radio 3 a Classic FM.

Mae **David Campbell** yn cael ei gydnabod yn un o glarinetwyr gorau Prydain ac mae wedi perfformio fel unawdydd gyda nifer o gerddorfeydd blaenllaw. Mae'n hoff iawn o gerddoriaeth siambr a bydd yn chwarae gyda nifer o ensemblau enwog. Mae ganddo ddisgyddiaeth amrywiol ac yn ddiweddar bu'n recordio'r pumawd clarinét gan Bliss i gwmni Naxos. Mae David hefyd yn frwd dros addysg gerdd a bydd yn teithio'r byd yn rheolaidd yn rhoi dosbarthiadau meistr.

CYFLWYNIR Y CYNGERDD HWN ER COF AM KENNETH EMLYN WILLIAMS (24.4.26-11.3.03)

Roedd Ken Williams, a fu farw'n sydyn ac yn gynamserol fis Mawrth diwethaf, yn ymfalchïo yn ei wreiddiau Celtaidd ar ddwy ochr y teulu. Fe'i ganed yn Northampton, a threuliodd ei flynyddoedd cynnar yn ardal Guildford. Ym 1943, yn dilyn cwrs Prifysgol byr, ymunodd â'r Awyrlu Brenhinol ac aeth i Cranwell i gael ei hyfforddi'n Swyddog. Dyma oedd dechrau gyrfa lwyddiannus fel peilot ac, yn fuan iawn, roedd wedi cyrraedd safle Is-gyrnol. Tua dechrau'r saithdegau, gadawodd yr awyrlu ac fe agorodd ef a'i wraig Pat bennod newydd yn eu hanes gan symud i Bonterwyd lle'r arhosodd am weddill ei fywyd. Ym 1972, penodwyd Ken yn Rheolwr y Theatr yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth a oedd newydd ei agor. Ym 1975 daeth yn Rheolwr Canolfan y Celfyddydau a chafodd bleser mawr o'r gwaith am nifer o flynyddoedd tan i'w wraig golli ei hiechyd ac iddo yntau ymddeol i ofalu amdani. Roedd marwolaeth Pat ym 1986 yn ergyd drom i Ken a'r plant. Wedyn, ar ôl cefnogi'r Blaid Lafur ers blynyddoedd, dechreuodd chwarae rhan flaenllaw yn ei gweithgareddau. Bu'n Gadeirydd y blaid yn etholaeth Ceredigion a Gogledd Penfro rhwng 1990 a 1998 ac roedd yn Drysorydd yr Etholaeth pan fu farw. Roedd yn aelod o Lys a Chyngor Prifysgol Cymru Aberystwyth am flynyddoedd lawer ac yn un o Ymddiriedolwyr Canolfan Gymunedol Aberystwyth tra bu.

Roedd Ken wrth ei fodd â cherddoriaeth ac roedd newydd ymuno â Bwrdd Cyfarwyddwyr MusicFest-Aberystwyth. Bu'n Drysorydd Clwb Cerdd Aberystwyth am flynyddoedd ac roedd yn adnabyddus ac yn uchel ei barch yng nghylchoedd cerddorol Aberystwyth. Ym 1989, trwy gariad y ddau at gerddoriaeth, cyfarfu â'i ail wraig, Margaret. Roedd hithau hefyd yn gwerthfawrogi bywyd yng Nghanolbarth Cymru ac roedd y ddau'n rhannu mwynhad o nifer o weithgareddau hamdden amrywiol.

DIGWYDDIADAU'R ŴYL 19-26 GORFFENNAF - SWYDDFA DOCYNNAU, RHIF FFÔN 01970 623232
www.musicfest-aberystwyth.org

CYNHELIR MUSICFEST MEWN PARTNERIARTH Â
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre